



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**
**NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE**

Nodiadau o Gyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru
2 Mehefin 2017
10:30 – 12:30
Optic, Parc Busnes Llanelwy

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Gareth Roberts, Bethan Jones Edwards, Lynda Colwell, David Worrall, Wendy Jones, Mary Wimbury, Margaret Hanson, Teresa Owen, Dawn Docx, Y Cynghorydd Christine Jones, Susie Lunt (ar ran Neil Ayling), Y Cynghorydd Joan Lowe, Bethan Jones (ar ran Morag Olsen), Debbie Shaffer, Karen Evans (ar ran Nicola Stubbins), Audrey Somerton-Edwards (ar ran Clare Field), Caroline Turner

Ymddiheuriadau: Neil Ayling, Nicola Stubbins, Clare Field, Jenny Williams, Morag Olsen, Vin West, Y Cynghorydd Llinos Medi Huws

Hefyd yn Bresennol: Johanna Manikisa, Sioned Williams Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru (Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol)

Eitem	Nodiadau	Camau Gweithredu:
1.	<p><u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd Y Cynghorydd Roberts bawb i'r cyfarfod, gwnaethpwyd cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.</p> <p>Gofynnodd y Cynghorydd Roberts i aelodau o'r Bwrdd gymryd rhan mewn munud o dawelwch i gofio a chydabod y rhai oedd wedi eu hanafu ym Manceinion yn ddiweddar.</p> <p>Gwnaethpwyd ymddiheuriadau fod papurau'r cyfarfod yn hwyr yn cael eu cylchredeg. Bydd dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol yn cael eu hail-anfon i aelodau.</p>	
2.	<p><u>Nodiadau a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf</u> Nododd CT ei bod hi a'r Cynghorydd Aled Morris Jones wedi anfon eu hymddiheuriadau i'r cyfarfod diwethaf.</p> <p>Dywedodd y Cynghorydd Roberts os yw unrhyw un yn anfon dirprwy i'r Bwrdd yna dylent ei hysbysu ef neu BJE er cwrteisi.</p>	

	<p>Law yn Llaw at Iechyd Meddwl – Nododd MH fod disgwyl i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal ym Mehefin. Roedd pawb nad oeddent wedi cael gwybodaeth am y cyfarfod i hysbysu BJE.</p>	
<p>3.</p>	<p><u>Cyflwyniad y Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol</u> Gwnaeth JM a ST gyflwyniadau ar y gwasanaeth awtistiaeth cenedlaethol arfaethedig. Mae angen i NW gwblhau cynnig i ddenu'r cyllid i weithredu'r gwasanaeth ar draws y rhanbarth.</p> <p>Mae BJE wedi trefnu cyfarfod gyda rhai cydweithwyr allweddol yn iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer cyfarfod cychwynnol gyda JM/ST i gychwyn proses y gwaith. Roedd WJ yn bryderus nad oedd unrhyw ymwneud gan y trydydd sector yn y cyfarfod hwn. Roedd DS hefyd yn bryderus nad oedd unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth yn mynychu. Bydd DS yn anfon enw cynrychiolydd o'r defnyddwyr gwasanaeth er mwyn ei wahodd.</p> <p>Nododd JM o ystyried y gwasanaeth a'r cynnig, yna fod trefniadaeth a strwythur yn allweddol. Mae Neil Ayling ac Andy Roach wedi cytuno i fod yn noddwyr Gyfarwyddwyr ar gyfer y gwaith hwn. Bydd y broses o adrodd ar y cynnydd o ran y cyllid hwn yn digwydd drwy Gymdeithas Lywodraeth Leol Cymru sy'n wahanol i'r broses o adrodd ar weddill cyllid y Gronfa Gofal Canolraddol.</p> <p>Cytunodd partneriaid fod angen mapio'r gwasanaethau ac adnoddau presennol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer awtistiaeth. Gofynnodd MH am edrych ar foddelau gwasanaeth Cilgwri a Sir Caer hefyd gan y bydd gwasanaethau yn y Dwyrain yn cael eu cymharu a'r rhain.</p> <p>Dyfynnodd TO y ffigurau yn yr asesiad o anghenion y boblogaeth mewn perthynas ag awtistiaeth. Nododd JM y byddai rhan o'r gwasanaeth yn cynnwys codi ymwybyddiaeth, cyfeirio a hyfforddiant.</p> <p>Gofynnodd aelodau'r Bwrdd a fyddai'n bosibl cael ymestyn y dyddiad ar gyfer cyflwyno cynigion Gogledd Cymru i ddiwedd Gorffennaf 2017.</p>	<p>Gofynnodd BJE i WJ a DS i anfon enw cynrychiolydd defnyddwyr y gwasanaeth a'r trydydd sector i fynychu'r cyfarfod hwn.</p> <p>Bydd BJE yn trafod y cais i ymestyn gyda NA/AR ac yn gweithredu yn dilyn y cyfarfod arfaethedig yn ôl y gofyn.</p>

4.	<p><u>Ethol Is Gadeirydd</u></p> <p>Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau ar gyfer swydd yr Is Gadeirydd. Enwau i'w hanfon i'r Cynghorydd Roberts a BJE erbyn 23 Mehefin 2017 fan bellaf gyda chynigydd ac eilydd. Bydd disgwyl i'r unigolyn a enwebwyd annerch aelodau'r Bwrdd a chynhelir pleidlais os oes mwy nac un enw.</p> <p>Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am rannu'r enwau fydd yn dod i law cyn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Enwebiadau i'w hanfon i'r Cynghorydd Roberts/BJE erbyn 23 Mehefin gyda chynigydd ac eilydd.</p>
5.	<p><u>Diweddariad ar y Cyllidebau Cyfun a llythyr gan y Gweinidog</u></p> <p>Codwyd pryderon gan aelodau o'r Bwrdd nad yw'r adroddiad yn rhoi synnwyr o'r gwahaniaeth rhwng gofynion y Ddeddf yn ymwneud â chyllidebau cyfun ar gyfer cartrefi gofal a beth all fod yn digwydd mewn gwirionedd. Nododd BJ fod cael cyllidebau cyfun mewn rhai ffyrdd yn haws i'r Bwrdd lechyd nac i Awdurdodau Lleol. Mae pryder nad oes dealltwriaeth o beth yw'r weledigaeth mewn perthynas â lle y byddai cyllidebau cyfun yn ein helpu i gyflawni integreiddiad. Pryder arall a godwyd oedd nad oes proffil a chofrestr risg o fewn yr adroddiad hwn.</p> <p>Cydnabuwyd llythyr gan y Gweinidog. Nododd BJE fod hon yn neges wahanol i'r hyn rydym wedi ei derbyn yn y gweithdai rhanbarthol a gynhaliwyd drwy'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Mae Steve Vaughan sy'n gweithio i'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn trefnu cyfarfod rhwng Dave Street, Cadeirydd y Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol ac Albert Heaney yn Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cael cais i beidio ymateb i'r llythyr hyd nes y byddwn yn gwybod beth fydd canlyniad y cyfarfod hwn.</p>	
6.	<p><u>Ffrydiau gwaith sydd o flaenoriaeth i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - cynlluniau Cwmpas a Chyflenwi</u></p> <p>Mynegodd y Cynghorydd Roberts ei siom nad oedd y tri chynllun cwmpas a chyflenwi ar gyfer 3 ardal flaenoriaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer integreiddio ar gael i'w Bwrdd heddiw. Hefyd mynegodd ei siom mai dyma ail gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol nad yw Cadeirydd presennol Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru wedi mynychu. Bydd y Cynghorydd Roberts yn cwrdd â Chadeirydd grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru i rannu ei bryderon am y diffyg cynnydd o ran y ffrydiau gwaith canlynol sydd o flaenoriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Plant gydag anghenion cymhleth a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd - Pobl Hŷn a chanddynt anghenion cymhleth gan gynnwys dementia - Anabledau Dysgu 	<p>Y Cynghorydd Roberts a Chadeirydd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru i gyfarfod</p>

	<p>Fel Cadeirydd mae'r Cynghorydd Roberts yn disgwyl i ddogfennau'r cynlluniau cwmpas a chyflenwi hyn i fod yng nghyfarfod Gorffennaf.</p> <p>Cytunodd MH gyda safbwynt y Cynghorydd Roberts a theimlai fod y sefyllfa yn systematig o ddealltwriaeth pobl o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r gofynion sydd wedi eu gosod arno gan Lywodraeth Cymru. Hefyd cytunodd MH os yw'r Bwrdd yn gwneud cais am waith neu ddiweddariad gan y grŵp Arweinyddiaeth yna dylai'r rhain fod ar y ffordd.</p> <p>Hysbysodd BJ y Bwrdd fod yna gynnydd mewn perthynas â Phlant drwy gyfarfod y Bwrdd Trawsnewid Plant ac mae'n casglu ei flaenoriaethau. Bydd gweithdy'n cael ei gynnal y mis hwn i gytuno ar y blaenoriaethau, gweledigaeth integredig a bydd gwaith yn mynd yn ei flaen. Hefyd dywedodd BJ fod angen i derfynau amser a rhaglenni fod yn realistig os ydym i gael y pethau hyn yn iawn.</p> <p>Nododd BJE fod y cynllun cwmpas a chyflenwi ar gyfer Anableddau Dysgu wedi ei ddrafftio ond, mae angen i grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ei arwyddo a bydd hyn yn digwydd yn ei gyfarfod fis Mehefin.</p> <p>Gorffennodd y Cynghorydd Roberts drwy ddweud fod angen i grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru dderbyn unrhyw geisiadau am ddarnau o waith gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac y dylid ymdrin â nhw mewn dull amserol ac os nad ydynt yn gallu cyflawni hyn yna dylid cyfleu hynny ar ffurf diweddariadau ysgrifenedig i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>Mynegodd MW ei phryder mai grŵp o swyddogion yn unig yw grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru a nododd DV ei bod yn anodd cynnal ei bresenoldeb os nad oes mewnbwn gan y trydydd sector.</p>	<p>Cynlluniau cwmpas a chyflenwi i ddod i gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol fis Gorffennaf.</p>
<p>7.</p>	<p><u>Adroddiad Diwedd blwyddyn y Gronfa Gofal Canolraddol 2016/17</u></p> <p>Mynegwyd pryderon nad yw'r adroddiad yn darparu gwybodaeth ar sut y mae arian o'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi gwneud gwahaniaeth yn ystod 2016/17 a pha ganlyniadau sydd wedi eu cyflawni. Nid yw cael astudiaethau achos yn ddigonol i ddarparu trosolwg rhanbarthol o'r canlyniadau.</p> <p>Gofynnodd aelodau'r Bwrdd hefyd am y cynigion i ddefnyddio'r Gronfa Gofal Canolraddol eleni - fe fyddent yn hoffi gweld beth a gynigir cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p>	<p>BJE i drefnu drwy'r grŵp arweinyddiaeth/ NS</p>

<p>Gofynnodd y Cynghorydd Roberts i BJE ofyn i'r Cyfarwyddwr Arweiniol ar y Gronfa Gofal Canolraddol am gyflwyno adroddiad neu gyflwyniad yn y cyfarfod nesaf yn ymwneud â'r canlyniadau a gyflawnwyd yn ystod 2016/17 o'r defnydd o gyllid y Gronfa Gofal Canolraddol. Gofynnodd rhai aelodau o'r Bwrdd a fyddai'n ddoeth i gynnal gweithdy i gael cyflwyniadau o'r ardaloedd ar y defnydd o'r Gronfa Gofal Canolraddol gan gynnwys gweledigaeth, canlyniadau a beth rydym yn ceisio ei gyflawni yn yr hirdymor.</p> <p>Cyfeiriodd y Cynghorydd Roberts at fater y tanwariant o £26k fel a nodwyd yn yr adroddiad a gofynnodd i'r Bwrdd beth y dymunant wneud gyda'r arian hwn oedd yn weddill. Hysbysodd BJ y Cynghorydd Roberts nad yw'r cyllid yno bellach gan nad oedd unrhyw ddarpariaeth na threfniant wedi ei wneud ar ei gyfer ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mynegodd y Cynghorydd Roberts ei bryder os mai dyma'r achos yna mae rhywbeth yn bod gyda'r llywodraethu ariannol yn ymwneud â'r Gronfa Gofal Canolraddol a dylai fod yna fecanwaith mewn grym i danlinellu unrhyw danwariant i bartneriaid, hyd yn oed yn unfed awr ar ddeg y cyfnod gwario. Gofynnodd y Cynghorydd Roberts i BJE ofyn i Gyfarwyddwr ariannol y Gronfa Gofal Canolraddol i edrych ar y mater hwn.</p> <p>Codwyd pryderon gan JL ynglŷn â'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno'r cynlluniau cyllid i Lywodraeth Cymru ac nad yw'r Bwrdd wedi gweld golwg o'r rhain. Eglurodd BJE ein bod yn dal i aros am yr wybodaeth o rai meysydd ac wedyn fod angen i ni drefnu'r rhain yn ôl themâu ar gyfer eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae gennym nawr hyd at 8 Mehefin i gyflwyno drafft gyda dyddiad terfynol o 15 Mehefin ar gyfer y cyflwyno terfynol. Gofynnodd JL a fyddai yna gyfarfod arbennig i weld yr hyn fyddai'n cael ei gynnig ar gyfer ei gyflwyno neu beth fyddai'r trefniadau. Bydd BJE yn siarad â Nicola Stubbins wedi iddi ddychwelyd o wyliau ddydd Llun nesaf i weld beth fyddai'r ffordd orau o reoli hyn. Gofynnodd aelodau'r Bwrdd am sicrhau fod gwybodaeth ar gael ar amser ac i'r Bwrdd gael y cyfle i weld cyn cyflwyno os ydynt yn gyfrifol am y gronfa.</p> <p>Cyfalaf y Gronfa Gofal Canolraddol – Roedd y Cyfarwyddwr Ardal BJ yn ddiweddar wedi cael cyfarfod gyda Chyfarwyddwr Tai Llywodraeth Cymru oedd am ganfod beth oeddem yn ei wneud yn nhermau'r tymor hirach gydag arian cyfalaf y Gronfa Gofal Canolraddol. Mae yna angen i ddatblygu rhaglen gyfalaf. Gofynnodd y Cynghorydd Roberts a oedd NS, fel yr arweinydd ar y Gronfa Gofal Canolraddol, wedi bod yn y cyfarfod hwn hefyd gan ei fod yn ymwneud â chyllid y Gronfa Gofal Canolraddol? Atebodd BJ nad oedd wedi bod yn rhan o hyn ond bydd BJ yn codi'r mater yng nghyfarfod</p>	<p>adroddiad/cyflwyniad ar gyfer y cyfarfod nesaf ar ganlyniadau</p> <p>BJE i ofyn i NS ailedrych ar y modd y caiff y Gronfa Gofal Canolraddol ei lywodraethu yn ariannol o ran y tanwariant ar ddiwedd flwyddyn</p> <p>BJE i siarad â NS ynglŷn â'r cynlluniau cyllid a rhannu hyn gyda'r Bwrdd</p>
--	--

	grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Gofynnodd MH a ddylem ystyried cyfethol cynrychiolydd o Gymdeithas Dai ar y grŵp Arweinyddiaeth neu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.	
8.	<p><u>Strategaeth Gyfathrebu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru</u></p> <p>Yn dilyn cyfarfod yr oedd y Cynghorydd Roberts a BJE wedi ei gael gyda chydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr cytunwyd i drefnu datganiad i'r wasg ar y cyd mewn perthynas â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Hefyd crybwyllodd y Cynghorydd Roberts y trafferthion roedd rhai pobol yn ei gael yn derbyn gwybodaeth pan nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngwrwyd. Mae hyn nawr wedi ei adlewyrchu o fewn y strategaeth ddrafft. Roedd MW yn bryderus fod y strategaeth wedi ei seilio ar yr allbynnau ac nid wedi ei seilio ar y canlyniadau. Hefyd nododd fod y ddogfen negeseuon allweddol bresennol yn rhy ddi-ffrwt ac oni bai fod pobl wedi bod yn y cyfarfod nid ydynt yn ddigon clir. O fewn yr argymhellion newydd, eglurodd BJE, byddai Adran Farchnata Cyngor Sir Ddinbych yn cymryd clipiau fideo o aelodau o'r Bwrdd a byddai hynny'n gymorth o ran lledaenu gwybodaeth am y Bwrdd yn ddibynnol ar beth roedd y Bwrdd yn dymuno ei gyflawni. Mae ymgynghoriad nawr ar y strategaeth Gyfathrebu ddrafft drwy aelodau'r panel dinasyddion a bydd adborth yn gymorth i lunio'r strategaeth derfynol.</p> <p>Gofynnodd DS i ni ystyried nid yn unig cyfathrebu i'r cyhoedd ond cyfathrebu gan y cyhoedd drwy aelodau o'r Bwrdd. Dylai fod yna weithdrefn ynglŷn â sut y gall unigolion ddod â materion i sylw'r Bwrdd. Hefyd mae angen i ni ystyried a ydym fel aelodau o'r Bwrdd yn hygyrch fel unigolion ai peidio? Ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth drwy DS a VW byddai'r cyswllt drwy rif ffôn a chyfrifon ebost ac mae angen i ni ystyried sut y gellir cyflawni hyn gan na fyddent yn dymuno i'w manylion cyswllt gael eu hanfon i neb.</p>	
9.	<p><u>Gohebiaeth gan aelod or cyhoedd</u></p> <p>Mae'r Cynghorydd Roberts a BJE wedi cwrdd â'r person wnaeth anfon gohebiaeth. Nawr mae ganddo well dealltwriaeth o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac rydym wedi ei gysylltu i'r panel Dinasyddion fel aelod.</p>	
	<p><u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u></p> <p>21 Gorffennaf 2017 am 10:30 – 12:30, Optic Parc Busnes Llanelwy</p> <p>Atgoffodd y Cynghorydd Roberts aelodau fod yna gynnig o hyd i'r Bwrdd gyfarfod ac ymweld â lleoliadau eraill ar draws Gogledd Cymru ac os yw rhywun yn dymuno gwahodd y Bwrdd i weld gwasanaeth penodol a chroesawu'r cyfarfod yna gadewch i BJE wybod os gwelwch yn dda.</p>	